



Cymru
National Day Nurseries Association

Factsheet

A young child with dark hair is shown in profile, focused on playing with wooden blocks on a table. The child is wearing a light blue top. The background is softly blurred, showing a bright, indoor setting.

**Datblygiad Rhifedd yn y
Blynyddoedd Cynnar**

Cwricwlwm i Gymru

Datblygiad Rhifedd yn y Blynyddoedd Cynnar

Mae rhifedd, ynghyd â chymhwysedd digidol a llythrennedd, yn sgiliau gorfodol traws-gwricwlaidd sy'n ymestyn ar draws y cwricwlwm cyfan, a'n cyfrifoldeb ni i yw sicrhau bod plant yn datblygu a dangos cynnydd yn y sgiliau yma. Wrth gynllunio profiadau dysgu, dylem sicrhau bod plant yn cael cyfle i ddefnyddio, datblygu ac ehangu'r sgiliau yma mewn modd ystyrlon, gan ddefnyddio'r pum llwybr datblygu.

Beth yw rhifedd?

Mae sut mae plant yn dysgu am rifau a datblygu dealltwriaeth fathemategol yn ystod y blynyddoedd cyn-ysgol yn hanfodol bwysig ac yn eu rhoi ar ben ffordd gyda'u sgiliau rhifedd a hyder yn nes ymlaen yn eu bywydau.

Datblygu rhifedd a'r Cwricwlwm i Gymru

Mae datblygu rhifedd yn rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae cymhwysedd mewn rhifedd yn hanfodol ar gyfer byw'n annibynnol a gweithio. Bydd y sgiliau datblygedig hyn yn hanfodol ac yn drosglwyddadwy i ddyfodol y plant yn ogystal â'u bywyd gwaith.

Ymgorffori datblygiad rhifedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir

Mae'r FfLIRh yn cyflwyno'r sgiliau sydd eu hangen ar blant i ddysgu a datblygu. Mae elfen rhifedd y fframwaith yn cynnwys; rhesymu rhifiadol, defnyddio rhif, mesur, defnyddio data, archwilio'r amgylchedd, defnyddio strategaeth syml a datrys problemau. Mae datblygiad rhifedd cynnar yn canolbwyntio ar sut mae plant angen sgiliau rhifedd i wneud pethau bob dydd fel datrys problemau, gwneud synnwyr o wybodaeth, deall patrymau a gwneud dewisiadau. Mae profiadau chwarae bob dydd y plant yn llawn cyfleoedd dysgu sy'n gosod sylfeini ar gyfer datblygu sgiliau rhifedd.

Yn ystod y gwaith o gyd-greu'r cwricwlwm nas cynhelir, cwblhawyd gwaith ar ymgorffori'r sgiliau yn y FfLIRh ar draws y pum llwybr datblygu. Mae hyn yn golygu, os byddwch yn canolbwyntio ar ddatblygu eich dysgwyr drwy'r ffyrdd a ddisgrifir yn y llwybrau mewn modd cyfannol, yna byddwch yn ymdrin â'r sgiliau sydd eu hangen yn y FfLIRh ar gyfer plant rhwng 3 a 4 oed ac ni fydd angen i chi ddefnyddio'r fframwaith rhifedd fel dogfen unigol.

Adnoddau datblygu rhifedd

Dylem adnabod bod rhifedd ymhobman ac yn llawer mwy na rhifau yn unig. Dylem gymryd agwedd gyfannol i ddatblygu rhifedd a chydabod bod elfennau o fathemateg a rhifedd o fewn y pum llwybr datblygiad.

Mae plant yn naturiol chwilfrydig ac yn datblygu dealltwriaeth o iaith fathemategol, cysyniadau a sgiliau drwy chwarae aml-sensori a phrofiadau go iawn. Dylai plant gael amser a gofod i ddysgu archwilio ac arbrofi gyda phethau pob dydd er mwyn datblygu sgiliau rhifedd, er enghraifft paru, trefnu a chymharu.

Dylai plant gael profiadau chwarae yn yr awyr agored pob dydd er mwyn annog eu diddordeb i archwilio cysyniadau mathemategol mewn bywyd pob dydd. O fewn y byd naturiol, mae cyfoeth o cyfleoedd i ddatblygu sgiliau rhifedd. Mae adnoddau pen agored, naturiol yn cynnig cyfleon diddiwedd ar gyfer archwilio sgiliau rhifedd.

Gyda chefnogaeth oedolion sy'n galluogi, a thrwy ddarparu amgylchedd effeithiol, gall plant ddarganfod a deall bod mathemateg ym mhob man. Rhaid i oedolion sy'n galluogi chwilio am gyfleoedd ystyrion i gefnogi datblygiad addysgu rhifedd. Drwy ddarparu cyfleoedd amrywiol a rheolaidd i ddefnyddio ac adeiladu ar sgiliau rhifedd a dealltwriaeth fathemategol, bydd plant yn datblygu sylfaen gadarn o wybodaeth a geirfa er mwyn datblygu ac ymestyn eu sgiliau rhifedd.

Datblygu rhifedd wrth ymarfer

Cynnwys plant mewn profiadau ymarferol, pwrpasol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi dysgu mathemategol a datblygu sgiliau rhifedd. Wrth ddatblygu dealltwriaeth fathemategol, mae'n hollbwysig i oedolion sy'n galluogi i roi amser i blant arsylwi, archwilio, ymchwilio ac arbrofi i weithio drwy'r broses o ddatrys problemau. Dylai'r broses datrys problemau hon gael ei gwerthfawrogi ynddi'i hun ac efallai na fydd yn arwain at ganlyniad nac ateb.

Bydd modelu iaith a sgiliau mathemategol priodol trwy gydol y dydd yn helpu plant i ddatblygu eu cymhwysedd strategol. Dylai oedolion sy'n galluogi defnyddio arsylwadau i lywio adegau dysgadwy, a all gynnwys modelu iaith a sgiliau mathemategol priodol drwy gydol y dydd, mewn cyd-destunau bywyd go iawn, i helpu plant i ddatblygu eu dealltwriaeth gysyniadol a'u cymhwysedd strategol.

Dylai amgylchedd effeithiol sicrhau bod gan blant fynediad at ystod eang o adnoddau dilys i helpu i adeiladu geirfa a hwyluso datblygiad cysyniad. Bydd amgylchedd wedi'i gynllunio a'i drefnu'n dda yn rhoi strwythur i ddatblygiad dealltwriaeth plant o gysyniadau mathemategol, er enghraifft trwy gyfleoedd gweledol ac ymarferol i brofi rhif, siâp a phatrwm mewn cyd-destunau go iawn, tu mewn ac yn yr awyr agored.

Mae angen profiadau ymarferol ar blant sy'n eu hannog i ddefnyddio geirfa fathemategol syml wrth archwilio maint, rhif, siâp a phatrwm. Mae angen i iaith fod yn real ac yn ystyrion i blant ifanc, felly mae'n bwysig dangos geirfa newydd iddynt mewn cyd-destun dealladwy. Bydd profiadau diddorol yn cefnogi datblygiad gwybyddol plant trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer cymharu, didoli a dosbarthu pethau byw ac anfw.

Mae llawer o bethau sy'n ddefnyddiol wrth ddatblygu medrau rhifedd plant, mae'n bwysig bod oedolion sy'n galluogi yn adnabod y cyfleoedd hynny ac yn manteisio arnynt. Gall rhai enghreifftiau o'r rhain fod:

- Gofyn cwestiynau sy'n ysgogi ac yn ymestyn meddwl a dealltwriaeth plentyn o rifau, siapiau a mesurau
- Gofyn i blant ddatrys problemau mathemategol go iawn - Sawl plât sydd ei angen arnom amser cinio? A yw'r boc hwn yn ddigon mawr i gario'r teganau tu allan?

- Annog plant i ddefnyddio sgiliau rhifedd mewn cyd-destunau cymdeithasol a chwareus – clorian a ffrwythau/llysiau yn ystod amser chwarae rôl, dyfeisiau mesur yn y gornel adeiladu, jygiau mesur gyda'r dŵr, amserlenni bws/trên ac ati.
- Rhannu adnoddau rhifedd gyda rhieni: rhoi benthyg llyfrau lluniau, gemau ac adnoddau eraill i rieni er mwyn cefnogi dysgu a datblygiad plant gartref
- Siarad yn uchel wrth ddefnyddio rhifedd fel oedolyn sy'n galluogi – e.e. 'rwy'n edrych ar yr amser ar y cloc, felly rwy'n gwybod faint o amser sydd ar ôl nes bod y cacennau'n barod.'

Datblygiad proffesiynol

Mae'n bwysig ystyried gwybodaeth yr oedolion yn y lleoliad. Os mai rôl yr oedolyn yw i hwyluso, galluogi a darganfod gyda'r plant – ydyn nhw yn hyderus yn eu sgiliau rhifedd eu hunain? Wrth ddisgwyl i ymarferwyr ymgysylltu'n hyderus â datblygu gallu rhifedd plant, mae'n bwysig ystyried dysgu a phrofiad er mwyn cynnig cymorth a hyfforddiant os oes angen. Nid oes rhaid i hyn fod yn gostus, weithiau gellir ei gyflawni trwy oruchwylio a gwyllo cyd-weithwyr wrth eu gwaith. Yr hyn sy'n bwysig yw bod pob ymarferwr yn gwybod ble i gael cymorth pellach ac yn deall pwysigrwydd datblygu sgiliau rhifedd plant i gefnogi eu twf cyffredinol a sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.

Cwestiynau myfyriol:

- Sut ydych chi'n caniatáu amser a lle i blant chwarae ac archwilio gyda rhannau rhydd?
- Sut ydych chi'n hwyluso profiadau sy'n canolbwyntio ar rifedd trwy gynllunio ac ymateb i ddiddordebau plant?
- Sut ydych chi'n ymgysylltu'r plant mewn datblygu sgiliau rhifedd trwy eich amgylcheddau effeithiol?
- Sut ydych chi'n cyflwyno i'r plant gysyniadau a geirfa fathemategol newydd?

Cefnogaeth bellach ac adnoddau NDNA:

- Cwricwlwm i Gymru – NDNA Cymru <http://www.ndna.org.uk/CFWAdditionalElements>
- Cwricwlwm i Gymru – Hwb <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>



National Day Nurseries Association

Taflen ffeithiau

***Meddwl mwy disglair
ar gyfer y blynyddoedd cynnar**

Caiff ein tafleni ffeithiau eu hysgrifennu gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar. Mae'r rhan fwyaf o'n tafleni ffeithiau am ddim ar gyfer ein haelodau.

NDNA yw'r elusen genedlaethol a'r gymdeithas aelodaeth sy'n cynrychioli meithrinfeydd plant ar draws y DU. Rydym yn elusen sy'n credu mewn safon a chynhaliadwyedd felly rydym yn gosod busnesau ein haelodau wrth galon ein un ni.

Ni yw llais y sector meithrinfeydd a'i 21,000 o aelodau, ac yn ran o fywydau dros filiwn o blant ifanc a'u teuluoedd. Rydym yn darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i gefnogi meithrinfeydd a'r 250,000 o bobl sy'n gweithio ynddynt i ddarparu dysgu cynnar a gofal plant o safon rhyngwladol.

Gwelwch yr ystod lawn o dafleni ffeithiau NDNA ar www.ndna.org.uk/factsheets

Mae'r wybodaeth ddarparwyd yn y daflen ffeithiau yma at ddefnydd ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn unig. Ysgrifenwyd y daflen gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ond ni ddylai gael ei ddefnyddio fel allddodyn i gyngor proffesiynol. Mae NDNA wedi ymdrechu i sicrhau cywirdeb y wybodaeth gyflwynwyd yn y daflen ffeithiau. Nid yw NDNA yn atebol yn gyfreithiol nac yn gyfrifol am eich dehongliad nac eich defnydd o'r wybodaeth a ddarperir

NDNA Cymru

3 Ty Connaught, Parc Busnes Glan Yr Afon, Ffordd Benarth, Conwy, LL32 8UB
ffôn: 01824 70 78 23 e.bost: wales@ndna.org.uk